# JONES, WILLIAM JENKYN (1852 - 1925), cenhadwr dros y Methodistiaid Calfinaidd yn Llydaw

**Enw:** William Jenkyn Jones
**Dyddiad geni:** 1852
**Dyddiad marw:** 1925
**Priod:** Fanny Jones (née Wilhelm)
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cenhadwr dros y Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Evan Lewis Evans

Ganwyd 29 Mawrth 1852 yn y Ceinewydd, Sir Aberteifi. Addysgwyd ef yng Ngholeg Normal Bangor ac yng Ngholeg y Brifysgol, Aberystwyth, a bu'n ysgolfeistr yn Ystradgynlais. Ordeiniwyd ef yn 1882 i faes y genhadaeth yn Llydaw. Bu'n llafurio am 40 mlynedd o'r ganolfan yn Quimper, prifddinas Finisterre a chanolfan hefyd i'r Pabyddion. Er ei fod yn wynebu anawsterau na ellid mo'u concro, llwyddodd i fod o ddylanwad mawr trwy rannu copïau o'r Ysgrythur a thraethodau crefyddol. Bu ei frawd, Evan Jones, yn ei gynorthwyo am gyfnod. Cyhoeddodd emyniadur yn iaith Llydaw, *Telen ar Cristen*. Gyda'r athro Le Braz cyfieithodd lyfr Genesis yn Llydaweg. Etholwyd ef yn aelod o'r Sociêtê Archéologique. Priododd Fanny Wilhelm. Yn 1922 rhoddwyd iddo radd M.A. Prifysgol Cymru, 'er anrhydedd.' Bu farw 10 Chwefror 1925.

## Awdur

**Y Parchedig Ddr Evan Lewis Evans**, (1898 - 1978)

## Ffynonellau


*Y Cenhadwr*, iv, rhif 3, 41

J. Hughes Morris, *Ein Cenhadaeth Dramor – Eglwys Bresbyteraidd Cymru*, 98-9


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q16945196


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu